# SCDSW14
Cynllunio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion tymor byr a thymor hwy

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae cynllunio mewn gwaith cymdeithasol yn ymwneud â dod o hyd i ffyrdd creadigol i gyflawni canlyniadau yn hytrach na chydweddu pobl â gwasanaethau traddodiadol neu bresennol. Gellir dod o hyd i atebion o fewn y bobl eu hunain neu eu rhwydweithiau personol; trwy gyfuno gwasanaethau mewn ffyrdd newydd neu fwy sefydledig; neu drwy amlinellu sut olwg allai fod ar gymorth sy'n gweddu'n berffaith. Mae'r safon hon yn mynd i'r afael â'r cylch o weithio ar y cyd i amlygu canlyniadau ac amcanion, archwilio atebion posibl a gwirio eu hymarferoldeb, a chytuno ar gynllun sy'n cynnwys ffyrdd i brofi pa mor dda y mae'r ateb yn gweithio.

# SCDSW14
## Cynllunio mewn partneriaeth i fynd i’r afael â materion tymor byr a thymor hwy

### Meini prawf perfformiad

*Mae’n rhaid eich bod chi’n gallu:*

P1 cynorthwyo **pobl** i ddeall y broses gynllunio a’u hawliau a’u cyfrifoldebau o fewn y broses honno

P2 gweithio gyda **phobl** i gytuno ar y canlyniad cyffredinol y dylai’r cynllun ei gyflawni

P3 dod i gytundeb ynghylch amcanion tymor byr, canolig a hir

P4 cynorthwyo pobl i adnabod adnoddau o fewn eu hunain, eu rhwydweithiau personol a’r gymuned

P5 archwilio amrywiaeth o **atebion** posibl a’u **hymarferoldeb** gyda’r bobl dan sylw

P6 llunio cynllun yn seiliedig ar wybodaeth wedi’i choladu

P7 sicrhau bod y rhai sy’n gysylltiedig â’r cynllun neu’n cael eu heffeithio ganddo, yn cytuno ag ef

P8 cytuno ar sut caiff y cynllun ei fonitro a’i adolygu

P9 cofnodi’r cynllun ac unrhyw ystyriaethau neu anghenion nad yw’r cynllun yn ceisio mynd i’r afael â nhw

# SCDSW14
Cynllunio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion tymor byr a thymor hwy

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

| | |
|---|---|
| K1 | deddfwriaeth genedlaethol, ei pherthynas â **pholisïau** ac ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K2 | codau, safonau, fframweithiau ac arweiniad statudol a phroffesiynol; eu perthynas â pholisi ac ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K3 | nodweddion y wlad gartref, ei hiaith, diwylliant, daearyddiaeth ac arferion |
| K4 | beirniadaethau ar sail damcaniaethau ac ymchwil ar y berthynas rhwng deddfwriaeth, polisïau ac ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K5 | gwaith cymdeithasol fel proffesiwn, gan gynnwys adroddiadau hanesyddol a materion cyfoes |
| K6 | natur, rôl a gorchymyn y berthynas gwaith cymdeithasol, gan gynnwys ffiniau proffesiynol a moesegol |
| K7 | egwyddorion, damcaniaethau, dulliau a modelau o ymyriad ac ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K8 | **ffactorau** sy'n gyffredinol yn cael eu cysylltu ag ymglymiad gwaith cymdeithasol |
| K9 | egwyddorion asesu risg a rheoli risg |
| K10 | egwyddorion cymryd risg yn gadarnhaol |
| K11 | technegau datrys problemau a meddwl arloesol |
| K12 | egwyddorion rheoli gwrthdaro |
| K13 | natur gwrthdaro ac effaith ôl-gwrthdaro ar y gymdeithas |
| K14 | gweithio yn eich sefydliad: egwyddorion, gweithdrefnau ac ymarferion proffesiynol |
| K15 | offer a fframweithiau asesu a chynllunio |
| K16 | gofynion ffurfiol ar gyfer prosesau cyfreithiol a phrosesau allanol eraill |
| K17 | diben gweithio gyda gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill |
| K18 | cylch gwaith, swyddogaethau, ethos a chyfrifoldebau disgyblaethau a sefydliadau sy'n ymglymedig â gwaith amlddisgyblaethol |
| K19 | cyd-destun diwylliannol ac ieithyddol yr unigolyn, y teulu, y grŵp neu'r gymuned |

K20 egwyddorion gweithio mewn partneriaeth ag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau

K21 systemau, prosesau a gweithdrefnau eich sefydliad eich hun a sefydliadau eraill, y gall unigolion, teuluoedd, grwpiau a chymunedau gymryd rhan ynddynt

K22 amrywiaeth y cymorth a all fod ei angen i hybu cyfranogiad

K23 grym a chyfrifoldebau cyfreithiol a statudol y gellir eu defnyddio er mwyn diogelu unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau

K24 potensial unigolion i ddefnyddio eu cryfderau a’u hadnoddau personol i gyflawni newid

K25 gwerth a rôl rhwydweithiau teuluol, cymunedau a grwpiau o ran cyflawni canlyniadau cadarnhaol, a ffyrdd i’w datblygu

K26 natur personoli a gwasanaethau wedi’u personoli, gan gynnwys cymorth hunangyfeiriol; a rôl y gweithiwr cymdeithasol mewn perthynas â’r rhain yng nghyd-destun polisi cenedlaethol

K27 amrywiaeth yr adnoddau sydd ar gael o fewn rhwydweithiau anffurfiol, yn y gymuned ehangach, trwy ddarpariaeth gwasanaeth ffurfiol, a thrwy arloesedd

K28 meini prawf cymhwyster ar gyfer gwasanaethau neu lifoedd ariannu

K29 y cyfleoedd a roddir gan ddulliau ariannu gwahanol, gan gynnwys cyllidebau unigol a thaliadau uniongyrchol

K30 y cylch comisiynu ar gyfer darpariaeth, gan gynnwys cyfleoedd i gomisiynu gwasanaethau gan y rheiny sy’n eu defnyddio

K31 rôl brocera o ran sicrhau gwasanaethau

K32 sut i fynegi gwybodaeth ysgrifenedig yn gywir, yn eglur, yn berthnasol ac â lefel briodol o fanylion

K33 gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer cofnodi gwybodaeth a llunio adroddiadau

K34 egwyddorion ymarfer myfyriol, meddwl beirniadol a dysgu

## Gwybodaeth Ychwanegol

**Cwmpas/ystod**

Ymarfer gwaith cymdeithasol gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau, mewn ystod eang o gyd-destunau, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol statudol ac anstatudol, datblygu cymunedol, cyfiawnder troseddol a lles addysgol.

# SCDSW14
Cynllunio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion tymor byr a thymor hwy

## Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â meini prawf perfformiad

Gall **pobl** gynnwys unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau neu gymunedau

Gall **atebion** gynnwys defnyddio adnoddau newydd neu bresennol o fewn yr unigolyn, y teulu, rhwydweithiau personol, y gymuned ehangach neu grwpiau; gallant fod yn hunangyfeiriol neu gael eu trefnu'n allanol; gallant fod yn ffurfiol neu'n anffurfiol; gallant fod yn wirfoddol, preifat neu statudol; gallant fod yn gysylltiedig ag iechyd, hamdden, addysg, cyflogaeth neu dai; gallant fod yn bersonol, technolegol neu gyfreithiol

Bydd **ymarferoldeb** yn cynnwys ystyried addasrwydd, argaeledd, cymhwyster, dilysrwydd cyfreithiol, cost a chynaliadwyedd

**SCDSW14**

Cynllunio mewn partneriaeth i fynd i’r afael â materion tymor byr a thymor hwy

## Cwmpas/ystod sy’n gysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Gall **polisïau** gynnwys rhai sy’n ymwneud â gofal cymdeithasol, diogelu, ail-leoli/atgyfannu yn y gymuned, cyfiawnder troseddol, mudo a cheisio lloches, addysg, iechyd, tai, budd-daliadau lles, amrywiaeth, gwahaniaethu a hybu annibyniaeth ac ymreolaeth oedolion, plant, teuluoedd, grwpiau a chymunedau

Gall **ffactorau** gynnwys camddefnyddio sylweddau; iechyd meddwl; eiddilwch; salwch corfforol; anabledd corfforol; anabledd dysgu; anghenion synhwyraidd; mudo a cheisio lloches; tlodi; oedolion neu blant mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth; plant mewn angen; anawsterau sy’n ymwneud ag addysg; statws grŵp ethnig neu grŵp lleiafrifol arall; ymddygiad troseddol; diogelu’r cyhoedd

# SCDSW14

Cynllunio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion tymor byr a thymor hwy

## Gwerthoedd

Glynu wrth y codau ymarfer rheoleiddiol sy'n gymwys i weithwyr cymdeithasol, a'r gwerthoedd sydd wedi cael eu mewnosod ynddynt

## Sgiliau

1. Cynllunio camau gweithredu i gyflawni canlyniadau canfyddedig
2. Cyfathrebu mewn modd agored, cywir a dealladwy
3. Addasu cyfathrebu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd
4. Hwyluso defnydd pob unigolyn o iaith a dull cyfathrebu dewisol
5. Cynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau
6. Gweithio'n effeithiol gyda'r rheiny sydd â safbwyntiau neu werthoedd sy'n gwrthdaro â'ch rhai chi
7. Trafod gydag eraill i gyflawni cytundeb mewn sefyllfaoedd cymhleth
8. Cymhwyso meddwl beirniadol i wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau
9. Dadansoddi a chyfosod gwybodaeth gymhleth
10. Cymhwyso meddwl creadigol i ddatrys problemau cymhleth
11. Llunio barn broffesiynol ynghylch sefyllfaoedd cymhleth
12. Defnyddio eich sgiliau rhyngbersonol a sgiliau a gwybodaeth arall fel adnodd
13. Cymhwyso ymagweddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
14. Cydbwyso canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn â lles pobl eraill
15. Llunio cofnodion ac adroddiadau sy'n bodloni safonau proffesiynol
16. Cael mynediad at systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'u defnyddio i gasglu, storio a lledaenu gwybodaeth
17. Cael mynediad at oruchwyliaeth a chymorth proffesiynol a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i'ch gwybodaeth neu'ch profiad chi

## Cysylltiadau â SGC eraill

Mae'r SGC hon yn cysylltu'n agos â:

SCD SW 17 Cymhwyso dulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol i hybu newid

SCD SW 18 Cael mynediad at adnoddau i gynorthwyo canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

| | |
|---|---|
| **Cysylltiadau Allanol** | Mae’r SGC hon yn cysylltu â chodau ymarfer rheoleiddiol sy’n berthnasol i weithwyr cymdeithasol. |

**SCDSW14**

Cynllunio mewn partneriaeth i fynd i’r afael â materion tymor byr a thymor hwy

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Sgiliau Gofal a Datblygu |
| **Rhif y fersiwn** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | HYDREF 2011 |
| **Dyddiad adolygu mynegol** | EBRILL 2014 |
| **Dilysrwydd** | CYFREDOL |
| **Statws** | GWREIDDIOL |
| **Sefydliad gwreiddiol** | Sgiliau Gofal a Datblygu |
| **URN gwreiddiol** | SW14 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Cymdeithasol |
| **Cyfres** | GWAITH CYMDEITHASOL |
| **Allweddeiriau** | GWAITH CYMDEITHASOL; YMARFER; GWYBODAETH; TYSTIOLAETH |